Y WERIN
CRONFA DREFTADAETH
LEGACY FUND
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC
The UW Restricted Endowment Trust

# Gwobr Goffa Ellis Griffith

*Daw'r Wobr o Gronfa a godwyd yn Sir Fôn ac yn Llundain yn bennaf i beri cofio enw y diweddar Wir Anrhydeddus Syr Ellis Jones Ellis Griffith MA KC PC (1860-1926), a fu'n Aelod Seneddol dros etholaeth Sir Fôn*

1. Buddsoddir Cronfa Goffa Ellis Griffith yn enw Prifysgol Cymru, a defnyddir y llog i roddi gwobr flynyddol a elwir "Gwobr Goffa Ellis Griffith".
2. Llyfrau gwerth tua £50 fydd y Wobr, ynghyd â gwobr ariannol gwerth tua £110.[1]
3. Penoda UWRET dri beirniad, heb fod yn ddiweddarach na 30 Mehefin, neu ryw ddyddiad arall a gaiff ei ddewis, ac ar sail eu hadroddiad hwy (neu adroddiad mwyafrif ohonynt) caiff argymhelliad ei ddwyn gerbron UWRET parthed dyfarnu'r Wobr.
4. Dyletswydd y beirniaid fydd argymell rhoddi'r Wobr (ac eithrio pawb a fydd wedi ei hennill o'r blaen) i bwy bynnag a fydd, yn eu golwg hwy, drwy waith a gyhoeddwyd yn ystod y tair blynedd calendr blaenorol, wedi cynhyrchu'r gwaith gorau yn Gymraeg ar lenorion Cymraeg, neu ar eu gweithiau, neu ar arlunwyr Cymreig neu grefftwyr Cymreig, neu ar eu gweithiau.
5. Os dywed adroddiad y beirniaid na chyrhaeddwyd safon deilwng o deilyngdod, atelir y wobr a rhoddir llog y flwyddyn at gorff y Gronfa.

---

Caiff y rheoliadau hyn eu ffurfio ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd yn addas i'r cyfnod modern.

1. Bydd union werth y dyfarniad yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.